



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Safon Rheoli Tai Cymru ar Gyfer Mynd I'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

'Y cynhwysfawr ac effeithiol i
ymddygiad gwrthgymdeithasol'



Copiâu ychwanegol

Mae copiâu electronig neu bapur o'r papur hwn ar gael trwy'r manylion cyswllt isod. Gellir cael atynt hefyd trwy wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy

www.wales.gov.uk/consultation neu www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Tîm Rheoli Tai a Digartrefedd
Uned Strategaeth a Gwasanaethau Tai
Y Gyfarwyddiaeth Dai
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhydycar
Merthyr Tudful CF48 1DU

Ffôn: 01685 729611
E-bost: vashi.phare@wales.gsi.gov.uk

Yr iaith Gymraeg

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori hon yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad.

Fformatau gwahanol

Mae'r Cyfarwyddyd hwn, y Strategaeth Genedlaethol a'r crynodeb iaith eglur ohono, ar gael mewn fformatau print mawr a chlywedol ar gais.

Gorffennaf 2008

D2280809 © Hawlfraint y Goron 2008 CMK-22-10-096

ISBN 978 0 7504 4824 6

Cynnwys	Rhif Tudalen
Pennod 1: Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Pennod 2: Creu'r Cysylltiadau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	3
Awdurdodau Cyfrifol	3
Plant a Phobl Ifanc	4
Rôl Tai	6
Pennod 3: Ynglŷn â Safon Cymru	8
Gofynion Cofrestru	10
Asesu Cydymffurfiaeth â'r Safon	12
Pennod 4: Safon Cymru	13
Ymrwymiad 1 - Ymrwymiad, arweiniad ac atebolrwydd	14
Ymrwymiad 2 - Grymuso a Thawelu Meddwl Preswylwyr	16
Ymrwymiad 3 - Atal ac Ymyrraeth Gynnar	18
Ymrwymiad 4 - Cymorth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol	20
Ymrwymiad 5 - Gwasanaethau wedi'u teilwra i breswylwyr a darparu cymorth i ddioddefwyr a thystion	21
Ymrwymiad 6 - Amddiffyn cymunedau trwy orfodi cyflym	23
Ymrwymiad 7 - Annog cyfrifoldeb cymunedol	24
Pennod 5: Ymgynghori	25
Cwestiynau yr ymgynghorwyd yn eu cylch	25-26
Atodiad A: Rhestr o sefydliadau / adrannau yr ymgynghorwyd â hwy	28

Pennod 1: Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Ddogfen 'Cymru'n Un: rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru'¹ yn gosod agenda pedair blynedd ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad). Mae ymrwymiad ar y cyd i egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd a chynhwysiant – ledled Cymru gyfan ac i bawb o'i phobl – yn llifo trwy'r rhaglen. Mae'r agenda'n cynnwys gwella cydlyniant cymunedol yn ogystal â sicrhau system cyfiawnder ieuencid a throreddol effeithiol.

Mae'r ddogfen ymhellach yn mynd ymlaen i ddweud: 'Rydym wedi ymrwymo'n gadarn i gefnogi a chynnwys y rhai sydd wedi'u gwthio i ymylon cymdeithas. Byddwn yn cynnig triniaeth a chymorth priodol ac effeithiol iddynt fod â rhan yn y gymuned ehangach ac i sicrhau bod y gymuned ehangach yn cynnwys pawb. Rydym am weld system cyfiawnder ieuencid a throreddol sy'n deg, system y mae gan bobl Cymru bob hyder ynddi.'

- 1.2 Mae'r safonau ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi gweithredu'r blaenoriaethau a nodir yn 'Cymru'n Un' ac maent yn gam pwysig tuag at lwyddo i greu cymunedau cryf a diogel ledled Cymru.

Cefndir

- 1.3 Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys amrediad eang o ymddygiadau, gydag amrywiaeth cyfatebol yn yr asiantaethau sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag ef. Gall achosi mân aflonyddu neu gall ddifetha bywydau'n llwyr. Nid yw ymddygiad gwrthgymdeithasol o angenrheidrwydd yn cynnwys tramgwyddau troreddol ac mae tramgwyddau troreddol y tu allan i ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond mae'r math hwn o ymddygiad yn tanseilio ffydd pobl yr eir i'r afael â throreddu ac mae'n cynyddu teimlad o ofn troreddau. Er nad mater tai'n unig yw ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae'n amlwg fod gan y sector tai rôl bwysig i'w chwarae o ran ei atal ac ymateb iddo. Yn wir, mewn llawer o achosion mae landlordiaid cymdeithasol wedi rhoi arweiniad ar fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymunedau ac mae llawer o enghreifftiau o arferion da'n bod o fewn y sector.
- 1.4 Caiff rôl bwysig landlordiaid cymdeithasol (awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) mewn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ei hadlewyrchu yng nghyhoeddiad Llywodraeth y Cynulliad '*Polisiâu a Gweithdrefnau ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Tai Lleol a Chymdeithasau Tai*' (2005)². Mae hwn yn pennu rolau a chyfrifoldebau landlordiaid cymdeithasol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel sy'n ofynnol o dan adran 12 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003.
- 1.5 Anelir y '*Respect Standard for Housing Management*' (*Respect Standard*)⁴ at landlordiaid cymdeithasol yn Lloegr ac mae'n amlinellu'r

elfennau craidd y cred yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) eu bod yn hanfodol er mwyn darparu ymateb effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol ac adeiladu cymunedau cryfach.

- 1.6 Yng Nghymru, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ystyried y potensial o ddatblygu safon rheoli tai ar gyfer landlordiaid cymdeithasol, i ategu'r Cod Canllawiau² presennol a pholisïau a mentrau eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ymarferiad ymgynghori wedi cyfarwyddo penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i symud ymlaen â Safon Cymru ac wedi bod yn sail i'w chynnwys a'r dull o'i gweithredu.
- 1.7 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu y bydd y safonau'n wirfoddol, gyda landlordiaid cymdeithasol yn cael eu hannog yn frwd i ymrwymo iddynt. Mae'r safon yn darparu cydnabyddiaeth i'r rhai sy'n cyflawni gwasanaethau da, ac yn darparu meincnod i anelu ato i landlordiaid sy'n gweithio ar wella'r gwasanaeth a ddarperir.

Pennod 2: Creu'r Cysylltiadau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

- 2.1 Nid yw landlordiaid cymdeithasol yn gweithredu ar eu pennau eu hunain. Maent yn rhan o gymuned ehangach a byddant yn rhannau pryderon a heriau'r gymuned ehangach honno. Yn wyneb hyn ac yn wyneb cymhlethdod ymddygiad gwrthgymdeithasol, nid yw ei achosion na'r atebion iddo'n gorwedd yn llwyr o fewn cylch gorchwyl sefydliad unigol a bydd gan amrywiaeth o asiantaethau ran i'w chwarae wrth ddatblygu ymatebion effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i landlordiaid cymdeithasol chwarae rhan ragweithiol wrth weithio gyda phartneriaid gan gydnabod y dylai'r cyfrifoldeb terfynol i weithredu a chyflawni canlyniadau gael ei rannu gan yr holl bartneriaid.
- 2.2 Mae'r bennod hon yn disgrifio rhai o'r asiantaethau eraill sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a rhai o bolisiau a mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad.

Awdurdodau Cyfrifol

- 2.3 Roedd Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a'r heddlu wneud popeth 'a allant yn rhesymol ei wneud i atal troseddau ac anhrefn' yn eu hardal. Fe wnaeth Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 ddarparu ar gyfer i awdurdodau heddlu, awdurdodau tân a grwpiau iechyd lleol ddod yn awdurdodau cyfrifol, ynghyd â Phrif Swyddogion Heddlu a Phrif Weithredwyr awdurdodau lleol. Mae Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 yn cynnwys diweddariadau i Ddeddf 1998, sy'n anelu at wella gweithio mewn partneriaeth a darparu eglurder ynghylch disgwyliadau 'awdurdodau cyfrifol' o dan eu trefniadau partneriaeth.
- 2.4 Mae Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (a ddaeth i rym yng Nghymru ym mis Hydref 2007) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyfrifol i weithio mewn partneriaeth i ffurfio a gweithredu strategaethau i fynd i'r afael â throseddau ac anhrefn a brwydro yn erbyn camddefnydd o sylweddau ac alcohol yn yr ardal leol. (gweler nodyn 1) Sefydlwyd 'Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn' (neu 'Partneriaethau Diogelwch Cymunedol' fel y cânt eu hadnabod yng Nghymru) ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Yn ogystal â'r awdurdodau cyfrifol, mae partneriaethau statudol yn gyffredinol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:
- y gwasanaeth prawf
 - llysoedd
 - ynadol
 - Timau Troseddau Ieuencid
 - mudiadau gwirfoddol a chymunedol

Nodiadau

1. Caiff y rhain eu pennu yn:
OS 2007 Rhif 3076 Rheoliadau Troseddau ac Anhrefn (Ffurio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2007 ac

- cymdeithasau tai (ni chynhwysir Cymdeithasau Tai ar hyn o bryd yn y diffiniad o 'gyrff cydweithredol'. Fodd bynnag, mae rheoliadau i'w cynnwys hwy o fewn y diffiniad hwn am gael eu cyflwyno yng Nghymru o dan ddarpariaethau Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006).

2.5 Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gweithio gyda phartneriaid lleol i baratoi a gweithredu Cynllun Diogelwch Cymunedol sy'n cynnwys darpariaethau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gellir cael hyd i '*Guidance for Community Safety Partnerships – Delivering Safer Communities - A guide to effective partnership working*'⁴ ar wefan y Swyddfa Gartref. Rhoddwyd cyllid i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol gan y Swyddfa Gartref ar gyfer gwaith cydgysylltu ymddygiad gwrthgymdeithasol – fe wnaeth y mwyafrif os nad pob un ohonynt ddefnyddio'r arian i gyflogi cydgysylltydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. O 1 Ebrill 2008 ymlaen bydd y cyllid hwn yn cael ei gynnwys yn y Grant Lleihau Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a roddir gan y Swyddfa Gartref i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Plant a Phobl Ifanc

2.6 Nid plant a phobl ifanc yw unig gyflawnwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn unrhyw ffordd, er y bydd y tebygolrwydd o ymddygiad rhag-gymdeithasol ar ôl tyfu'n oedolion yn deillio o fentrau sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ym mlynnyddoedd ffurfiannol pobl ac o fynd i'r afael ag achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn wyneb hyn, mae llawer o bolisiau a mentrau Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac ar fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ehangach megis tlodi ac allgau cymdeithasol.

Rhwystro Troseddu

2.7 Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad '*Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan*'s yng Ngorffennaf 2004, ar y cyd â Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr. Mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer atal troseddu ac aildroseddu ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru. Caiff y cyllid i gefnogi cyflawni'r strategaeth ei weinyddu gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae'r cyllid wedi galluogi Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gefnogi prosiectau sy'n mynd i'r afael â throseddau ieuencid, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, difrod troseddol a fandaliaeth ac mae'n cefnogi ymyriadau sy'n targedu camddefnydd o gyffuriau ac alcohol.

- 2.8 Roedd y rhaglen *'On Track'* yn rhan o'r Rhaglen Lleihau Troseddau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref yn 1998, gyda'r amcan o ddarganfod 'beth sy'n gweithio' o ran ymyrraeth gynnar mewn diogelwch cymunedol. Roedd *On Track* yn fenter hirdymor a redodd am 7 mlynedd. Roedd yn anelu at wella cydweithredu rhyngasiantaethol a datblygu gwasanaethau wedi eu targedu i blant rhwng 4 a 12 mlwydd oed. Plant yw'r rhain y bernir bod risg gwirioneddol y byddant yn troseddu'n ddiweddarach mewn bywyd a thrwy eu hadnabod yn gynnar darperir cymorth dwys iddynt hwy a'u teuluoedd.

Gwahoddwyd pedair ardal ar hugain yng Nghymru a Lloegr i gymryd rhan yn y rhaglen *On Track* – gyda'r rhain i gyd wedi cael eu dewis oherwydd lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol. Roedd dau o'r pedwar Prosiect ar hugain a ddewiswyd i gymryd rhan yn y rhaglen yng Nghymru – Tylorstown yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Maesteg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Dewiswyd yr ardaloedd trwy gyfeirio at Fynegai Amddifadedd Cymdeithasol Cymru a thrwy ymgynghori â chydweithwyr yn yr Is-adran Plant a Theuluoedd. Roedd y gwerthuso cynhwysfawr yn elfen hanfodol o'r rhaglen *On Track* a bydd yn cyfarwyddo polisi yn y maes hwn yn y dyfodol.⁶

Rhianta Effeithiol

- 2.9 Mae maes pwysig arall o bolisi sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys gwella gwasanaethau o gwmpas darpariaeth rhieni fel y gellir canolbwyntio help ar rieni sydd arnynt ei angen fwyaf. Ym mis Rhagfyr 2005, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei *'Gynllun Gweithredu Rhianta'*, sy'n datgan sut y bydd yn cefnogi mamau, tadau a gofalwyr gyda magu plant yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu gwaith datblygu ar ddau Brosiect Ymyrraeth Teuluol o fewn ei Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol am 2008-09. Mae'r prosiectau hyn wedi profi i fod yn llwyddiannus iawn mewn rhannau eraill o'r DU wrth fynd i'r afael ag achosion gwaelodol a phatrymau ymddygiad teuluoedd sy'n arddangos problemau gwrthgymdeithasol cronig.

Mynd i'r afael â Thlodi Plant

- 2.10 Yn y cyd-destun ehangach, mae mynd i'r afael â thlodi plant yn elfen hanfodol o strategaeth ehangach Llywodraeth y Cynulliad i wella ansawdd bywyd ac ymestyn cyfleoedd i bob cymuned yng Nghymru. Golyga hyn ymdrin â'r materion cymhleth sy'n cyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis tlodi, tai gwael a segurdod, gan gydnabod bod y rhain yn aml iawn yn effeithio ar fywydau pobl yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig.
- 2.11 Mae *'Cynllun Gweithredu ar Dlodi Plant'* Llywodraeth y Cynulliad yn 2006⁸ yn cynnwys amrywiaeth o gynigion polisi sy'n anelu at ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020. Mae *'Cael Gwared ar Dlodi Plant erbyn 2020: Mesur Llwyddiant'*⁹ yn cynnwys amrywiaeth o gerrig milltir

a thargedau mewn pedwar prif faes polisi, gan gynnwys Tai, a fydd yn galluogi i gynnydd Llywodraeth y Cynulliad gael ei fesur dros amser.

Atal Digartrefedd Ieuenctid

- 2.12 Mae'r strategaeth letya ('*Suitable, Sustained, Supported: A Strategy to Ensure Provision of Accommodation for Children and Young People who offend*')¹⁰ a lansiwyd ym mis Tachwedd 2006 gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn anelu at ddatblygu gwaith gyda phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i atal digartrefedd ymysg pobl ifanc sydd wedi troseddau neu sydd mewn perygl o droseddu, a chynyddu eu gallu i gael llety addas a chynaliadwy. Defnyddir Cefnogi Pobl a chyllid grant arall yn y maes hwn ar gyfer prosiectau penodol ledled Cymru. (gweler nodyn 2 am enghreifftiau)

Nodiadau

2. Mae enghreifftiau o brosiectau'n cynnwys:

Mae partneriaeth rhwng Pobl Ifanc Sengl Ddigartref Abertawe, Fairbridge a'r Cyngor i ddiwallu anghenion tai, cymorth a hyfforddiant troseddwr ifanc wrthi'n cael ei sefydlu. Mae'n defnyddio cyllid a grantiau Cefnogi Pobl.

Mae Agorfa yn y gogledd yn derbyn cyllid oddi wrth Dimau Troseddau Ieuenctid i ategu rhenti sector preifat ac wedyn defnyddio cyllid Cefnogi Pobl i gefnogi pobl ifanc yn y prosiect.

Mae prosiect Clive Street Llamau'n cefnogi troseddwr ifanc yn unswydd gyda'r diben o leihau troseddu a darparu cymorth i gynnal eu cartrefi. Fe wnaeth 66% gyflawni lleihad neu ddarfyddiad yn eu troseddu ac ni welodd y 33% unrhyw gynnydd yn eu hymddygiad troseddol. Symudiad ymlaen sy'n datblygu gyda chymorth fel y bo'r angen, a fydd yn dod yn barhaol os yw'r tenant yn llwyddiannus.

The Rôl Tai

- 2.13 Nid yw ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi ei gyfyngu i denantiaid cymdeithasol, o ran cyflawnwyr nac o ran y rhai a effeithir ganddo. Mae ar Lywodraeth y Cynulliad felly eisiau gweld landlordiaid cymdeithasol yn gwneud cysylltiadau addas rhwng darpariaethau Safon Cymru a strategaethau eraill cysylltiedig â thai megis Digartrefedd a Cefnogi Pobl. Bydd hyn yn helpu sicrhau bod mesurau i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymateb iddo'n cael eu cynnwys yn helaeth o fewn gwahanol strategaethau a chynlluniau a fydd yn helpu ymestyn camau gweithredu effeithiol yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mhob daliadaeth tai.
- 2.14 Mae'n bwysig hefyd fod landlordiaid preifat yn gweithredu'n briodol wrth ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol eu tenantiaid ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i weld landlordiaid preifat yn ymgysylltu â'u Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'u Cydgysylltwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Lleol. Gallai hyn fod trwy ffurfio Grŵp Gweithredu ar y Cyd yn cynnwys cynrychiolwyr o adrannau perthnasol o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, awdurdod yr heddlu, timau troseddau ieuenctid ac yn y blaen.

Rheoli Tai

- 2.15 Mae ofnau a phryderon pobl ynghylch troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn amrywio gan ddibynnu ar eu profiadau unigol. Cydnabyddir yn gyffredinol fod pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, yn aml yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, yn canfod lefelau uchel o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; maent yn fwy tebygol na grwpiau eraill i ddweud bod hyn yn broblem ddifrifol.
- 2.16 Gall rheolaeth gref ar dai felly wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywydau preswylwyr. Mae tua 17% o'r boblogaeth yn byw mewn tai cymdeithasol yng Nghymru ac mae llawer mwy'n byw mewn cymdogaethau lle mae landlordiaid cymdeithasol yn chwarae rhan flaenllaw mewn rheoli cymdogaethau.
- 2.17 Yn aml, rheolwyr tai fydd y rhai cyntaf i sylwi ar broblemau a hwy fydd yr asiantaeth gyntaf y bydd pobl sy'n profi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn troi atynt. Mae ymateb pendant i broblemau, gan gyfuno cefnogaeth gyda chosbau pan nad yw ymddygiad yn gwella ar ôl yr ymdrechion cychwynnol i fynd i'r afael ag af, yn holl bwysig wrth greu ac amddiffyn cymunedau cryf, cynhwysol a chynaliadwy.
- 2.18 Mae ar Lywodraeth y Cynulliad eisiau i bobl deimlo'u bod yn cael eu grymuso trwy godi hyder yr eir i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a fydd yn ei dro'n adeiladu ymddiriedaeth ac yn hyrwyddo gwerthoedd a rennir. Mae llawer o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru wedi datblygu mentrau rhagorol ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy ymgysylltu â chymunedau a gweithio'n gyfochrog ag asiantaethau eraill sy'n gyfrifol am droseddau ac anhrefn. Mae'r safon hon, yn rhannol, yn adeiladu ar eu llwyddiannau. (Gweler nodyn 4 am rai ffynonellau o arferion da).

Nodiadau

4. Mae cyhoeddiad Llywodraeth y Cynulliad *'Polisiau a Gweithdrefnau ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Tai Lleol a Chymdeithasau Tai'* (2005) yn cynnwys enghreifftiau astudiaethau achos o wahanol ddulliau o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled y DU.

Cytundebau Cymydog Da – mae'r rhain yn canolbwyntio ar rymuso cymunedol a hwyluso atebolrwydd lleol. Am wybodaeth bellach gweler y nodyn arfer *'Respect and Housing Management – Using Good Neighbour Agreements: Emerging Lessons from Research'* (DCLG, 2006) ac mae ar gael trwy eu gwefan www.communities.gov.uk

Pennod 3: Ynglŷn â Safon Cymru

- 3.1 Yng Ngorffennaf 2005 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ganllawiau statudol *'Polisiau a Gweithdrefnau ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Tai Lleol a Chymdeithasau Tai yng Nghymru'* (y Cod)² i ddibenion adran 218A(7) o Ddeddf Tai 1996 (Deddf 1996).
- 3.2 Mewnosodwyd adran 12 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Deddf 2003) yn Adran 218A o Ddeddf 1996. Gosododd ddyletswydd newydd ar landlordiaid cymdeithasol i baratoi polisi ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chyhoeddi datganiad a chrynodeb o'r rhain erbyn 30 Hydref 2005.
- 3.3 Nod Safon Cymru yw sefydlu meincnod uchel ei ofynion i herio'r sector i ymdrechu am welliannau parhaus mewn gwasanaethau sy'n anelu at fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n rychwantu'r agendâu atal, cefnogi a gorfodi, gan osod pwyslais cryf ar ymgysylltu â thenantiaid a'u grymuso. Mae'r bennod nesaf yn amlinellu darpariaethau Safon Cymru.
- 3.4 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i sicrhau bod preswylwyr yn eglur eu meddyliau hefyd ynghylch lefel, ehangder ac effeithiolrwydd y gwasanaethau y mae ganddynt hawl i'w disgwyl, ac yn cynnal eu cyfrifoldebau eu hunain yr un pryd. Byddai Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i landlordiaid bennu a gweithio tuag at agenda o'r fath o fewn eu strategaethau a'u hamcanion ar gyfer cynnwys tenantiaid. (Gweler nodyn 4)

Nodiadau

4. Mae cyhoeddiad Llywodraeth y Cynulliad, 'Strategaeth Genedlaethol i Gymru ar Gyfranogiad Tenantiaid' (2007) a'r canllawiau gweithredu dilynol 'Datblygu Strategaethau Cyfranogi Lleol' (2008) yn darparu canllawiau manwl i landlordiaid cymdeithasol ar uchafu cyfraniad tenantiaid fel arf i wella gwasanaethau. Mae'n ofynnol i landlordiaid cymdeithasol gyflwyno'u strategaethau ar gyfer cyfranogiad tenantiaid i Lywodraeth y Cynulliad i gael eu hadolygu erbyn mis Hydref 2008.
- 3.5 Bydd gofyn i landlordiaid ymrwymo'u hunain yn ffurfiol i Safon Cymru ac wrth wneud hyn byddant yn gwneud ymrwymiad gweladwy i denantiaid, preswylwyr a phartïon eraill â diddordeb i wneud popeth a allant yn rhesymol i ddarparu gwasanaethau rhagorol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy eu rolau rheoli tai ac ymgysylltu cymunedol ehangach. Dylai'r gwasanaethau hynny fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac wedi eu haddasu'n unol â blaenoriaethau'r cymunedau lleol a wasanaethir gan wahanol landlordiaid.

Bydd landlordiaid yn gallu ymrwymo ar ddwy wahanol lefel:

- a) **gweithio tuag at:** dangos datganiad cyhoeddus o ymgysylltu ac ymrwymiad i'r safonau gan nodi meysydd allweddol i wella arnynt

b) **cyrraedd:** lle mae landlordiaid yn hyderus eu bod yn gallu dangos i'w bwrdd rheoli neu Aelodau Cyngor, tenantiaid a'r gymuned ehangach eu bod yn cydymffurfio â saith elfen graidd y safon.

3.6 Wrth wneud yr ymrwymiad hwn, cred Llywodraeth y Cynulliad y bydd landlordiaid yn arwyddo'u hymroddiad i helpu creu, cynnal a gwella cymunedau lle:

- bydd pobl yn teimlo'u bod yn cael eu clymu gan werthoedd cyffredin a gefnogir gan synnwyr o gymuned
- bydd ymddygiad rhag-gymdeithasol yn cael ei werthfawrogi a'i annog
- na fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amarch tuag at bobl ac amgylcheddau lleol yn cael eu goddef
- na fydd y mwyafrif gweddus yn ofni defnyddio gofod cyhoeddus ac y byddant yn rhydd i fwynhau eu cartrefi heb gael eu tarfu a/neu eu haflonyddu gan y lleiafrif
- bydd bobl yn hyderus y byddant yn cael cefnogaeth lawn asiantaethau wrth herio ymddygiad annerbyniol
- bydd pobl yn cael eu hysbysu'n gyson am gamau a gymerir i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn cael eu hannog i chwarae rhan weithgar yn eu cymunedau.

Cost gweithredu Safon Cymru

3.7 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl y bydd llawer o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru eisoes yn darparu gwasanaethau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cyrraedd llawer o ddarpariaethau'r Safon Cymru arfaethedig. Disgwylir felly na fydd ymrwymo i'r Safon yn golygu'r angen am wariant ychwanegol sylweddol er y gall costau ychwanegol ddigwydd lle bo landlordiaid yn penderfynu adolygu eu gwasanaethau yng ngoleuni gofynion Safon Cymru (er enghraifft trwy hunan asesu). O ganlyniad i hunan asesu gall landlordiaid cymdeithasol wynebu rhywfaint o gostau os oes angen am ddyrannu mwy o adnoddau er mwyn cyrraedd y safon. Mae amrywiaeth o ffynonellau o arferion da i gynorthwyo landlordiaid wrth asesu eu gwasanaethau ymddygiad gwrthgymdeithasol. (gweler nodyn 5).

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried defnyddio'r cynllun Grant Rheoli Tai Cymdeithasol (HousingGrantsAdministration@wales.gsi.gov.uk) i gynorthwyo gyda chostau sefydlu landlordiaid ac er mwyn annog mabwysiadu'r Safon ledled Cymru.

Nodiadau

5. Mae Housemark a Grŵp Troseddu a Niwsans Landlordiaid Cymdeithasol yn darparu gwybodaeth a chyngor i aelodau ar asesu a mesur gwasanaethau mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cyhoeddwyd *'The Respect Standard for Housing Management : A Performance Improvement kit for Landlords'* gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ym mis Medi 2007. Canllaw arferion da diffiniadol yw'r pecyn cymorth ar gyfer mesur perfformiad ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithredu gwelliannau mewn gwasanaethau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er ei fod yn adlewyrchu polisi a chyd-destun rheoleiddiol Lloegr ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, gellir addasu'r pecyn cymorth ar gyfer ei ddefnyddio gan landlordiaid yng Nghymru.

Consensws Eang

- 3.8 Rydym yn ymwybodol o amrywiaeth y sector rhentu cymdeithasol. Nid swyddogaeth Llywodraeth y Cynulliad yw pennu beth ddylai union natur dull landlord o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fod. Mae'r atebion gorau'n codi o ddatblygu atebion lleol i broblemau lleol. Fe wnaeth ymgynghori gynorthwyo i lunio consensws eang ynghylch beth sy'n ffurfio arfer gorau, gan ddarparu fframwaith y gellir addasu Safon Cymru trwyddo yn unol â chyd-destunau a blaenoriaethau lleol.
- 3.9 Mae Safon Cymru'n disgrifio gweithgareddau y gall landlord eu cyflawni fel rhan o'i rôl rheoli tai a'r gweithgareddau hynny sy'n ddibynol ar gymorth partneriaid. Mae'n anochel y bydd cyflawni'n cynnwys amrywiaeth eang o asiantaethau megis yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, timau troseddau ieuenctid, ysgolion, gwasanaethau iechyd, timau gweithredu ar gyffuriau a'r gwasanaeth prawf. Mae Safon Cymru'n disgwyl i landlordiaid wneud popeth a allant yn rhesymol ei wneud i adeiladu a chyfrannu at bartneriaethau, yn enwedig Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol ond yn cydnabod bod hyn yn dibynnu ar i asiantaethau eraill wneud yr un modd. Dylid cyfeirio at y ddogfen ganllawiau *'Community Safety Partnerships - Delivering Safer Communities - a guide to partnership working'* 4 mewn perthynas â chyflawni canlyniadau effeithiol.

Gofynion Cofrestru

Cynllunio

- 3.10 Wrth ystyried ymrwymo i Safon Cymru bydd angen i landlordiaid ystyried lefel, ansawdd ac ehangder y gwasanaethau a ddarparant ac a ydynt yn cyrraedd y meincnod a osodwyd gan Safon Cymru. Dylai hunanasesu landlordiaid yn y cyswllt hwn fod yn unol ag egwyddorion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella/Gwerth Gorau.
- 3.11 Cynigir bod tenantiaid yn cael rôl ganolog ym mhrosesau asesu landlordiaid. Gallai hyn gynnwys tenantiaid yn cael eu dewis a'u hyfforddi i asesu polisïau a gweithdrefnau ymddygiad gwrthgymdeithasol landlordiaid yn erbyn Safon Cymru. Byddai'r broses asesu a ddilynwyd a'r canlyniad yn ffurfio rhan o'r broses o wneud cais am gofrestru. Dim ond lle bydd y tenantiaid sy'n asesu'n cytuno bod cydymffurfiaeth â Safon Cymru (cyrraedd y safon) neu lle bo meysydd na chydymffurfir ond bod cynigion cadarn ynghylch sut yr eir i'r afael â'r diffygion hyn ac erbyn pryd (ymrwymo i weithio tuag at) y dylid cyflwyno ceisiadau am gofrestru.

- 3.12 Gall landlordiaid drefnu ‘cyfnewidiadau asesu tenantiaid’ fel y gellir gwahodd tenantiaid o sefydliadau landlord eraill i ymgymryd ag asesuadau o bolisiau a gweithdrefnau ymddygiad gwrthgymdeithasol gwahanol landlordiaid. Dylai hyn fod yn drefniant cydfuddiannol ac eithrio mewn achosion lle mae landlordiaid yn profi anhawster sicrhau cytundeb eu tenantiaid eu hunain i ymgymryd â’r rôl hon.
- 3.13 Dylai tenantiaid fod yn cymryd rhan hefyd mewn mesurau gan landlordiaid i fonitro ac adolygu’r ffordd y gweithredir y Safon.
- 3.14 Lle bo landlordiaid yn hyderus eu bod yn cydymffurfio â Safon Cymru bydd angen iddynt wneud datganiad cyhoeddus i breswylwyr a chymunedau lleol eu bod yn ymrwmo’u hunain i gyflawni lefel o wasanaeth yn unol â Safon Cymru. Gall eraill benderfynu ymrwmo i ‘weithio tuag at’ Safon Cymru wrth weithio gyda phreswylwyr i wella’u gwasanaethau.

Cofrestru

- 3.15 Cynigir bod landlordiaid yn cofrestru’n ffurfiol â Safon Cymru trwy gwblhau ffurflen syml a anfonir yn electronig trwy wefan tai Llywodraeth y Cynulliad. Bydd hon yn cynnwys manylion o’r asesiad tenantiaid y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.11.
- 3.16 Ar ôl cael cadarnhad o dderbyn ceisiadau gan landlordiaid eu brandio eu hunain fel llofnodwyr. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig dilyn proses o achredu ar adeg yr arwyddo ond yn hytrach o fonitro’r hyn y mae landlord yn ei gyflawni yn erbyn eu hymrwymadau, o bosibl trwy’r rhaglenni arolygu tai (gweler paragraffau 3.21 – 3.24 am fwy o wybodaeth).
- 3.17 Unwaith y cofrestrir eu bod yn bodloni’r gofynion cyflwynir i landlordiaid sy’n llofnodwyr dystysgrif yn amlygu eu hymrwymiad i Safon Cymru. Darperir iddynt hefyd ffeil electronig o fathodyn Safon Cymru y gallant ei ddefnyddio ar bapur ysgrifennu a deunydd cyhoeddusrwydd. Gall hyn adlewyrchu cymeradwyaeth tenantiaid o bolisiau a gweithdrefnau’r landlord perthnasol.
- 3.18 Yr allwedd i Safon Cymru yw atebolrwydd i breswylwyr a phan fo landlordiaid wedi cofrestru dylent ystyried sut y byddant yn gadael i’r gymuned wybod am y camau y maent wedi eu cymryd – er enghraifft trwy gyhoeddi datganiad i’r wasg, trefnu cyfarfod neu ddigwyddiad lleol i gyhoeddi eu hymrwymiad. Pan fyddant wedi cofrestru eu bod yn cyrraedd y safonau, dylai landlordiaid sicrhau bod preswylwyr yn eglur eu meddyliau ynghylch y safonau y maent wedi ymrwmo’u hunain iddynt – er enghraifft trwy arddangos tystysgrif Safon Cymru mewn lleoliadau amlwg neu ledaenu’r cynnwys trwy gylchlythyrau newyddion.

Lledaenu Arferion Da

- 3.19 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i landlordiaid sy’n llofnodwyr ddarparu’n wirfoddol enghreifftiau o arferion da ar brydiau rheolaidd

gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o themâu. Bydd hyn yn cynnal cyfoesedd gwybodaeth Llywodraeth y Cynulliad o arferion da fel y gallant eu rhannu.

- 3.20 Yn bwysicach na dim bydd gan breswylwyr yr hawl i ddisgwyl y bydd landlordiaid yn gwneud yr hyn y dywedant y byddant yn ei wneud pan fyddant yn ymrwmo i Safon Cymru, a dylai preswylwyr allu herio'u landlordiaid lle bo perfformiad yn ddiffygiol trwy weithdrefnau cwyno safonol.

Asesu Cydymffurfiaeth â Safon Cymru

- 3.21 Mae agwedd landlordiaid cymdeithasol tuag at God Canllawiau² ymddygiad gwrthgymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n cael ei ystyried o fewn trefniadau arolygu presennol yn y ffyrdd canlynol:
- 3.22 Ar gyfer cymdeithasau tai, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys cydymffurfiaeth â'r Cod o fewn ei drefniadau arolygu. Yn ogystal â hyn, gellir gofyn i gymdeithasau tai 'hunan-ardystio' eu cydymffurfiaeth o fewn y ffurflen hunan-asesu flynyddol sy'n rhoi manylion o'u cydymffurfiaeth â Chod Rheoliadol Llywodraeth y Cynulliad¹¹.
- 3.23 Ar gyfer awdurdodau tai lleol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru, neu unrhyw gorff a fydd yn ei olynu, i sicrhau bod cydymffurfiaeth â'r Codi yn cael ei brofi'n llawn trwy ei drefniadau arolygu.
- 3.24 Mae trefniadau rheoleiddio wrthi'n cael eu ffurfioli ar hyn o bryd. Mae'r trefniadau rheoleiddio hyn yn debygol o gynnwys monitro'r safon.

Pennod 4: Safon Cymru

- 4.1 Mae Safon Cymru'n cynnwys ymrwymiadau craidd y cred Llywodraeth y Cynulliad eu bod yn cynnwys ymateb cynhwysfawr ac effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 4.2 Mae Safon Cymru'n ei gwneud hi'n ofynnol fod gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a/neu ar y cyd ag asiantaethau partner yn rhoi ystyriaeth briodol i'r elfennau craidd canlynol:
1. Ymrwymiad, arweiniad ac atebolrwydd
 2. Grymuso a thawelu meddwl preswylwyr
 3. Atal ac ymyrraeth gynnar
 4. Cymorth i fynd i'r afael ag achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol
 5. Gwasanaethau wedi eu teilwra ar gyfer preswylwyr a chymorth i ddiodefwrwr a thystion
 6. Amddiffyn cymunedau trwy orfodi cyflym
 7. Annog cyfrifoldeb cymunedol
- 4.3 Mae'r adran ganlynol yn darparu gwybodaeth fanwl ar elfennau craidd Safon Cymru. Maent wedi eu hisrannu i adlewyrchu elfennau sy'n debygol o fod, ar y cyfan, o fewn cylch gwaith a rheolaeth y landlord a'r elfennau hynny nas gellir eu cyflawni ond ar y cyd â phartneriaid perthnasol. Mynegir y rhain fel '**meini adeiladu**' a '**gweithio gyda phartneriaid**', a bydd elfennau'r rhain yn cyfrannu at gyflawni'r saith elfen graidd (gweler paragraff 2.4 am enghreifftiau o sefydliadau partner).
- 4.4 Er mwyn cyrraedd y safonau, byddem yn disgwyl i lofnodwyr allu arddangos eu bod yn cyflawni'r cyfan neu lawer o'r gweithgareddau hyn – er y cydnabyddir y bydd hyn yn amrywio yn ôl amgylchiadau lleol, ac mae angen dull hyblyg o weithredu i'r diben hwn. Mae'n anochel fod rhai o'r gweithgareddau'n gorgyffwrdd yn wyneb y synergeddau sydd rhwng yr elfennau craidd.
- 4.5 Ni fwriedir i'r ystod o weithgareddau gynnwys popeth ac mewn rhai achosion gall fod landlordiaid yn cyflawni gweithgareddau nad ydynt yn cyfateb yn union i'r gweithgareddau hynny a restrir ond sy'n anelu at gyflawni canlyniadau tebyg.

Ymrwymiad 1 – Ymrwymiad, arweiniad ac atebolrwydd

Diben

Dylai landlordiaid ddangos i'r cyhoedd eu hymrwymiad i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel y bydd tenantiaid yn gwybod y byddant yn cymryd digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol o ddifrif; yn ymwybodol o'r hyn y bydd eu landlord yn ei wneud i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; ac yn gwybod pa gamau y gallant eu cymryd os nad yw eu landlord yn gwneud yr hyn y dywed y bydd yn ei wneud.

Meini Adeiladu:

- ymrwymiad y gellir ei ddangos i atal a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chreu diwylliant o barch (ee datblygu amrywiaeth o atebion sy'n cynnwys atal, mesur ailsefydlu a chefnogi a dal y rhain o fewn strategaethau a chynlluniau perthnasol)
- cefnogi ymrwymiad trwy alinio cynhwysedd ac adnoddau a darparu gwerth am arian (ee trefniadau gweithio traws-sefydliadol lle mae sefydliadau llai yn defnyddio adnoddau rhai mwy gyda gwasanaethau arbenigol)
- neilltuo cyfrifoldeb o fewn partneriaethau lleol fel bod pawb sy'n darparu gwasanaethau'n eglur eu meddyliau ynghylch eu rôl a'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt
- ceisio arferion da a datblygu dulliau newydd
- defnyddio tenantiaid i asesu cydymffurfiaeth polisïau a gweithdrefnau ymddygiad gwrthgymdeithasol landlordiaid â Safon Cymru fel rhan o'r broses gofrestru
- cyflawni canlyniadau a ddiffinnir gan dargedau lleol mesuradwy (ee cynnydd blwyddyn ar flwyddyn mewn bodlonrwydd preswylwyr yn ôl stad neu gymdogaeth fel y mesurir gan arolygon rheolaidd)
- adolygu perfformiad yn barhaus i gyfarwyddo cynllunio gwelliannau a chynnwys preswylwyr a phartneriaethau yn y broses hon (ee trwy fesurau Gwerth Gorau neu Raglen Cymru ar gyfer Gwella)
- ymrwymiad i bolisïau cadarn o ddim goddefgarwch tuag at gam-drin staff, cynrychiolwyr preswylwyr a gweithwyr gwirfoddol wrth gyflawni eu swyddogaethau

Gweithio gyda phartneriaid:

Gweithio gydag asiantaethau partner ar lefelau strategol a gweithredol gan gynnwys:

- datblygu a/neu gyfrannu at brotocolau cyflawni gwasanaethau lle bo'n briodol
- cyfranogiad gweithgar ac effeithiol ar bartneriaethau lleol, gan gynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lle bo'n ymarferol a strwythurau ar lefel cymdogaeth lle maent yn gweithredu (ee partneriaethau adfywio
- rhannu gwybodaeth
- cysylltiadau addas rhwng strategaethau ymddygiad gwrthgymdeithasol a strategaethau eraill gan gynnwys strategaethau tai lleol, strategaethau digartrefedd lleol, Cefnogi Pobl, Cynlluniau Gweithredu ar Dai i Bobl

Dduon a Lleafrifoedd Ethnig, strategaethau cyfranogiad trigolion lleol a strategaethau neu gynlluniau diogelwch/cydlyniant cymunedol eraill

Ymrwymiad 2 – Grymuso a thawelu meddwl preswylwyr

Diben

Bydd ymatebion effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys mewnbwn a chydweithrediad pobl leol – ni fydd hyn yn digwydd os ydynt yn amwys neu'n ansicr ynghylch ymrwymiad eu landlord i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae angen i landlordiaid a'r gymuned weithio mewn partneriaeth, gyda phreswylwyr yn cael y cyfle i gyfrannu at benderfyniad a fydd yn effeithio arnynt hwy ac ar eu cymunedau. Bydd ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol yn cyfrannu at rymuso cymunedau a thawelu eu meddwl.

Meini Adeiladu:

- cynnwys preswylwyr, gan gynnwys pobl ifanc, wrth osod blaenoriaethau lleol fel rhan o strategaeth cyfranogiad preswylwyr lleol landlordiaid cymdeithasol
- darparu sesiynau adborth rheolaidd, ystyrlon a hygyrch ar faterion o bryder lleol gan gynnwys asiantaethau partner lle bo'n briodol (ee sesiynau 'Wynebu'r Bobl')
- ymgysylltu â phreswylwyr wrth ddatblygu a chytuno ar safonau ymddygiad lleol (ee trwy Gytundebau Cymydog Da)
- hwyluso 'archwiliadau a arweinir gan y gymuned' o ardaloedd â phroblem ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau amgylcheddol (ee cerdded stadau i weld lle mae graffiti a thipio anghyfreithlon)
- darparu diweddariadau rheolaidd i breswylwyr o gamau gweithredu y mae landlordiaid a sefydliadau partner wedi eu cymryd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (yn weithgareddau cadarnhaol ac yn weithredu gorfodi) a sut y gellid eu cynnwys mewn cyflawni atebion (ee dosbarthu taflenni etc)
- hyrwyddo'r hyn a ddisgwylir gan y gymuned o ran goddefgarwch, herio, cymryd rhan mewn cyfryngu, mynd ati'n rhagweithiol i geisio Cytundebau Stad, bod yn dystion effeithiol a chymryd rhan mewn prosiectau cymunedol
- rhoi cyhoeddusrwydd i'r defnydd o arfau gorfodi (i ddibenion cyffredinol neu benodol lle bo'n briodol) fel y tawelir meddwl y gymuned a'i bod yn ymwybodol o unrhyw amodau fel y gallant helpu adrodd unrhyw amheuon o'u torri
- teilwra gwasanaethau i roi ystyriaeth i rwystrau rhag cymryd rhan fel nad yw neb yn cael eu hallgáu'n ormodol
- gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol 'ystyriol o'r gymuned' (ee noddi gweithgareddau i bobl ifanc sy'n cyfrannu at y gymuned neu sy'n mynd i'r afael yn llwyddiannus â'u hymddygiad a chydabod preswylwyr sy'n barod i wneud safiad a chefnogi gweithredu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol)

Gweithio gyda phartneriaid:

- gweithio gydag asiantaethau partner a'r cyfryngau lleol i hyrwyddo camau gweithredu/llwyddiannau wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (ee wedi ei grynhoi mewn strategaeth gyfathrebu aml-asiantaethol)
- cysylltu mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwaith ehangach mewn ardaloedd ar adeiladu cynhwysedd cymunedol a chydlyniant cymunedol (ee hwyluso prosiectau i feithrin dealltwriaeth rhwng cenedlaethau neu gyfryngu ledled cymuned i ddatrys materion lleol sy'n achosi tensiynau o fewn cymdogaeth)
- gweithio'n annibynnol neu gydag asiantaethau partner i gael pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol a defnyddiol (ee gwirfoddoli, glanhau cymunedol, chwaraeon a'r celfyddydau a gweithgareddau yn ystod gwyliau ysgol)

Ymrwymiad 3 – Atal ac ymyrraeth gynnar

Diben

Gall landlordiaid chwarae rhan bwysig wrth gyflwyno mesurau sy'n anelu at atal ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag digwydd. Lle bo'n digwydd, mynd i'r afael yn gyflym â phroblemau sy'n cael y canlyniadau gorau yn aml.

Meini Adeiladu:

- sicrhau bod cytundebau a phrydlesau'n cydymffurfio â chanllawiau'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT) ac yn cynnwys gwaharddiadau amlwg ar ymddygiad gwrthgymdeithasol – yn gysylltiedig lle bo'n briodol â Chytundeb Cymydog Da
- cynnal cyfarfodydd cofrestru hygyrch a chyfeillgar i breswylwyr newydd i gynnwys esboniad clir o bolisiau'r landlord ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, sut yr eir i'r afael â phroblemau, beth a ddisgwylir oddi wrth y preswlydd a'r hyn y gallant hwy ei ddisgwyl gennych chi yn y fargen
- cynnal asesiadau llawn o unrhyw broblemau posibl a all fod angen cefnogaeth tenantiaeth wrth ymrwymo i gytundebau tenantiaeth newydd a sicrhau bod yr anghenion am gefnogaeth yn cael eu diwallu
- adolygu'n rheolaidd bolisiau dyrannu a gosod er mwyn sicrhau bod materion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu cynnwys (ee dull cytbwys o osod sy'n rhoi ystyriaeth i'r angen i ddiwallu angen am dai a chreu cymunedau cynaliadwy, gosod sensitif er mwyn osgoi sefyllfaoedd a allai achosi problemau)
- mabwysiadu cynlluniau tenantiaeth rhagarweiniol neu gychwynnol
- cynllunio i gau allan ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy gynlluniau gatiâu amgylcheddol a gwelliannau (ee gosod gatiâu, goleuadau diogelwch)
- defnyddio arfau ymyrraeth gynnar megis Cytundebau Ymddygiad Derbyniol (a Chytundebau Rhianta os ydynt ar gael) wedi eu cysylltu â darparu cymorth lle bo hynny'n addas
- darparu rhybuddion clir wedi eu cefnogi gan dystiolaeth o gamau gweithredu a gymerwyd yn y gorffennol yn erbyn cyflawnwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol
- cymryd camau gweithredu cyflym gyda difrod amgylcheddol (ee cael gwared yn gyflym â graffiti a chlirio llanast lle bu tipio anghyfreithlon) i roi arwydd clir y bydd camau'n cael eu cymryd
- cymryd camau gweithredu cyflym mewn perthynas ag aflonyddu a throseddau casineb

Gweithio gyda phartneriaid:

- datblygu polisiau cyffredin ynghylch cyfyngu ar fynediad i dai oherwydd ymddygiad annerbyniol a/neu adlewyrchu dull y cytunwyd arno (gan gynnwys adnabod anghenion am gefnogaeth a sut y gellir eu diwallu) mewn cytundebau enwebu ffurfiol
- darparu tystiolaeth i asiantaethau partner a gweithio gyda hwy i adnabod ardaloedd â phroblem ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ardaloedd lle

ydddengys fod digwyddiadau'n egino a chyfrannu at gyflawni strategaethau wedi eu teilwra i fynd i'r afael â'r problemau hyn

- gweithio gydag asiantaethau partner i ddarparu presenoldeb gweladwy mewn ardaloedd â phroblem (ee swyddogion cymorth cymunedol / patrolau heddlu a wardeiniaid)
- gweithio'n agos gyda chynlluniau wardeiniaid lle maent ar gael gan gynnwys cynlluniau noddi lle bo'n bosibl
- gweithio gyda sefydliadau tai â chymorth mewn achosion lle bo ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ganlyniad anghenion am gymorth nas diwellir
- rhoi cyhoeddusrwydd / hyrwyddo'n gadarnhaol y gwaith da / ymyrraeth gynnar sy'n digwydd ledled Cymru wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy weithio mewn partneriaeth

Ymrwymiad 4 – Cymorth i fynd i'r afael ag achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol

Gall darparu cymorth priodol ymdrin ag ymddygiad annerbyniol trwy fynd i'r afael ag achosion gwaelodol. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau cynaliadwy ac yn cael bywydau pobl yn ôl mewn trefn.

Meini Adeiladu:

- sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r amrywiaeth o ddarpariaeth o gymorth sydd ar gael a sut i wybod sut y dylai pob dull gael ei ddefnyddio
- sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth glir o sut y dylai darpariaeth cymorth gael ei gysylltu â sbardunau (ee mesurau ymyrraeth gynnar neu ddefnydd o weithredu gorfodi megis israddio)
- sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n datgan sut yr estynnir at ac y darperir y ddarpariaeth a'r sbardunau ar ei chyfer
- canolbwyntio ar gyflenwi cymorth trwy gysylltu cymorth â gorfodi'n gynnar yn y broses yn hytrach nag ymyraethau mewn ymateb i argyfyngau pan fo problemau wedi dwysáu
- ei gwneud hi'n glir i breswylwyr y gellid ystyried gweithredu gorfodaeth lle bo cynigion addas am gymorth wedi cael eu gwrthod a lle nad yw eu hymddygiad yn gwella
- datblygu polisïau a gweithdrefnau clir ar ymdrin â phreswylwyr agored i niwed (ee pobl gyda phroblemau iechyd meddwl a phroblemau cyffuriau ac alcohol)

Gweithio gyda phartneriaid:

- defnyddio 'cymorth fel y bo'r angen' i helpu preswylwyr roi'r gorau i'w hymddygiad gwrthgymdeithasol ac uchafu eu siawns o gynnal eu tenantiaeth
- lle bo'n addas ac ar gael, cyfeirio at Raglenni Ymyrryd Teuluol ar gyfer preswylwyr gydag anghenion cymhleth am gymorth sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned
- trafod gyda thimau Cefnogi Pobl leol i adeiladu ar gynlluniau presennol, yn rhai cymorth yn ôl y galw ac yn rhai'n ymwneud â thai preswyl, i sicrhau bod y cymorth priodol ar gael i'r rhai gydag anghenion cymhleth. Lle nad oes cymorth ar gael ar hyn o bryd archwilio cyfleoedd posibl i Cefnogi Pobl ariannu prosiect cymorth newydd

Ymrwymiad 5 – Gwasanaethau wedi eu teilwra i breswylwyr a chymorth i ddioddefwyr a thystion

Mae llwyddiant yn dibynnu ar i bobl fod yn fodlon adrodd digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac wedyn rhoi cymorth i asiantaethau wrth gymryd camau gweithredu. Mae pob achos a phob person yn haeddu ymateb cadarn, addas a sensitif.

Meini Adeiladu:

- sicrhau ei bod hi'n hawdd adrodd trwy gynnig amrywiaeth o ddulliau adrodd (ee adrodd ar lafar, llinellau ffôn brys, e-bost a chanolfannau adrodd) a bod yn ymatebol i'r amrediad o anghenion. Dylai gwasanaethau fod yn hygyrch i bawb gan ddefnyddio iaith glir heb ddim jargon ac ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac yn addas o sensitif (ee wrth adrodd trosedd casineb)
- sicrhau bod y cyswllt cyntaf yn barod i helpu, yn gwrtais ac yn sensitif i'r straen sy'n aml ynghlwm wrth adrodd am ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol – mae hyn yn neilltuol o bwysig mewn adroddiadau ynghylch, er enghraifft, aflonyddu hiliol neu drais yn y cartref lle mae angen ymatebion mwy arbenigol
- sicrhau bod pawb o'r staff yn deall yn glir pa weithdrefnau y dylid eu dilyn pan dderbyniant gŵyn
- cyflawni o fewn terfynau amser cyraeddadwy ond heriol ar bob cam o'r broses a chytuno ar weithredu addas gyda'r achwynydd. Ar achlysuron pan na ellir cadw at y terfynau amser dylid rhoi esboniadau
- darparu i achwynwyr ddiweddariadau rheolaidd o gynnydd eu hachos o'r adeg y gwnaed y gŵyn hyd at ei datrys a'r tu hwnt, gan gynnwys canlyniadau unrhyw achosion llys
- lleihau hynny ag sy'n bosibl y baich ar achwynwyr wrth gasglu tystiolaeth (ee defnydd cryno o daflenni dyddiadur yn hytrach na defnydd hirfaith heb unrhyw ganlyniad clir)
- lle bo mynychu llys yn ofynnol, dylid cynnig esboniadau llawn o'r gweithdrefnau ac ymweliadau â'r llaw o flaen llaw a dylid cynnig cymorth drwy gydol y broses gan gynnwys hebrwng i'r llys a mentora

Gweithio gyda phartneriaid:

- cynnal asesiadau o anghenion cymorth unigolion sy'n adrodd ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'n cytuno i ddarparu tystiolaeth/gweithredu fel tystion
- cefnogi dioddefwyr yn systematig naill ai'n uniongyrchol neu ar y cyd ag asiantaethau gofal a chymorth arbenigol (ee gwasanaethau a rhwydweithiau cefnogi tystion)
- defnyddio mesurau tawelu meddwl ar fyrder lle bo hynny'n briodol gan gynnwys patrolau rheolaidd (swyddogion tai, wardeiniaid, heddlu etc) ac ymweliadau, darparu larymau personol, systemau teledu cylch cyflym etc
- canolbwyntio ar 'galedu targedau' (ee blychau llythyrau sy'n gwrthsefyll tân a thyllau ysbïo ongl lydan) gan gysylltu â gwasanaethau Atal Troseddau fel bo'r angen

- cysylltu â gwasanaethau llys i leihau'r straen o achos llys (ee man ymgynnull diogel)

Ymrwymiad 6 – Amddiffyn cymunedau trwy orfodi cyflym

Mae amrywiaeth o arfau ar gael i landlordiaid i'w helpu hwy i fynd i'r afael ag amrywiaeth helaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Lle bo angen cymryd camau gorfodi, bydd angen i landlordiaid ddeall sut i weithredu'r amrywiol fesur ac o dan ba amgylchiadau fel y gellir eu defnyddio'n gyflym i amddiffyn cymunedau fel bo'r angen.

Meini Adeiladu:

- sicrhau bod staff yn llwyr ymwybodol o'r amrywiaeth o arfau sydd ar gael (fel yr adlewyrchir yng Nghod Llywodraeth y Cynulliad ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) a sut i wybod pryd y dylid defnyddio pob arf naill ai fel ateb ar ei ben ei hun neu ar y cyd â mentrau strategaeth ehangach
- cynhyrchu gweithdrefnau manwl ar weithredu'r amrediad o arfau gorfodi gan ddisgrifio'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer pob un o ran casglu tystiolaeth ac ymgynghori ag asiantaethau eraill a hyfforddi staff ar y rhain
- sicrhau had yw aflonyddu'n cael ei oddef trwy ymdrin â'r broblem yn gyflym
- sicrhau mai fel dewis pan fo popeth arall wedi methu y defnyddir troi rhywun o'u cartref, trwy ddefnyddio arfau eraill yn lle hynny i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (ee gwaharddebau, israddio tenantiaeth etc) a sicrhau bod cymorth addas yn cael ei gynnig yn y lle cyntaf
- sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar gyfer rheoli achosion yn eu lle a'u bod yn galluogi llwybr carlam o weithredu cyfreithiol lle bo'r angen (ee systemau sy'n hwyluso mynd ar ôl gwaharddebau interim ar fyr rybudd a gorfodi mewn ymateb i dramgwyddau)
- casglu tystiolaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhagweithiol o amrywiaeth helaeth o ffynonellau
- ymrwymiad i gynnal yn weladwy safonau o ymddygiad mewn man cyhoeddus a herio'r rhai nad ydynt yn cadw atynt, lle bynnag y bo hynny'n bosibl
- monitro defnydd o wahanol arfau a chanlyniadau i'w fwydo i adolygiadau ehangach o berfformiad a chynllunio gwelliannau.

Gweithio gyda phartneriaid:

- datblygu perthnasau gweithio cryf a chysylltiadau strategol gyda phartneriaid
- gweithio ar y cyd o ran gorfodi/casglu tystiolaeth gan staff o sawl asiantaeth
- cael gweithdrefnau cadarn yn eu lle i geisio gorfodi mewn ymateb i dramgwyddau cyn gynted â phosibl gyda chamau gweithredu'n cael eu cefnogi fel asiantaethau perthnasol fel bo'n briodol

Ymrwymiad 7 – Annog Cyfrifoldeb Cymunedol

Nid fydd creu cymunedau diogel a chryf yn deillio o asiantaethau cyhoeddus yn darparu ymatebion effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol ar eu pennau eu hunain. Bydd hefyd yn dibynnu ar ddinasyddion cyfrifol a goddefgar sy'n ymwybodol o'r effaith y mae eu hymddygiad yn ei gael ar eraill.

Meini Adeiladu:

- hyrwyddo goddefgarwch a thawelu sefyllfaoedd lle caiff gweithgareddau eu camddehongli fel ymddygiad gwrthgymdeithasol (ee plant yn chwarae mewn parciau gerllaw eiddo preswyl)
- ei gwneud hi'n eglur i breswylwyr fod ganddynt gyfrifoldebau'n ogystal â hawliau
- sicrhau bod gan breswylwyr ddealltwriaeth glir fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys ymddygiad sy'n gallu achosi niwsans neu flinder i unigolyn neu unigolion neu'r gymuned ehangach
- sicrhau bod preswylwyr yn deall yn glir yr effaith y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei gael ar eraill
- hyrwyddo'r defnydd o gyfryngu neu ddatrys gwrthdaro cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn atal anghydfod rhwng cymdogion rhag dwysáu
- gweithio gydag achwynwyr, preswylwyr a'r gymuned ehangach i reoli eu disgwyliadau o wasanaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol y landlord. Dylai landlordiaid sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n glir eu meddwl ynghylch pa ganlyniad sy'n realistig ym mhob achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol a phwysleisio bod troi allan o gartref yn annhebyg yn y mwyafrif o achosion ac na chaiff ei ddefnyddio ond pan fydd popeth arall yn methu
- annog achwynwyr (lle bo'n briodol) i ddefnyddio dewisiadau 'human-help' i ddatrys materion lefel isel / mân niwsans eu hunain trwy siarad â'r cyflawnwr a cheisio datrys y mater yn gyfeillgar heb orfod troi at y landlord
- gweithio gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid i hyrwyddo goddefgarwch a chyfrifoldeb cymunedol ymysg preswylwyr a'r gymuned ehangach

Gweithio gyda Phartneriaid:

- cysylltu â gwasanaethau cyfryngu a Chanolfan Cyngor ar Bopeth
- cysylltu â grwpiau cymunedol (clybiau ieuenctid, grwpiau eglwysig)
- cyfeirio at Ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac iddynt y teitl 'Byw'n Gytûn: Beth i'w wneud ynglŷn ag anghydfod rhwng cymdogion'. Gellir cael atynt trwy'r ddolen ganlynol:
<http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/publications/livinginharmonyleaflet?lang=en>

Pennod 5: Ymgynghori

Ymgynghorwyd ynghylch y cwestiynau canlynol:-

Cwestiynau ar gyfer trafodaeth ac adborth

5.1 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i ddarganfod barnau landlordiaid, tenantiaid ac asiantaethau eraill ar y cynigion a gyflwynir yn y papur hwn. Mae wedi dyfeisio set o gwestiynau i hwyluso trafodaeth ynghylch y potensial i allu defnyddio Safon Cymru i ysgogi dadl a darparu adborth yn wybodaeth i Lywodraeth y Cynulliad. Yn amlwg, mater i sefydliadau unigol yw sut y maent yn ymateb a beth yw sail eu hymatebion - y peth pwysig yw bod pawb o'r rhai sy'n dymuno mynegi barn yn gallu gwneud hynny fel bod Llywodraeth y Cynulliad yn gallu cymryd safbwynt gwybodus ynghylch hyrwyddo Safon Cymru.

- a) A ydych chi'n meddwl y bydd Safon Cymru'n gwella ymatebion landlordiaid cymdeithasol i ymddygiad gwrthgymdeithasol?
- b) Beth ydych chi'n feddwl fyddai'r prif rwystrau i landlordiaid cymdeithasol fabwysiadu'r safon? Sut y gellid efallai oresgyn y rhwystrau hyn?
- c) Mae'r ymrwymiad cyhoeddus i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol y bydd landlordiaid yn ei wneud trwy fabwysiadu Safon Cymru wedi arwain rhai landlordiaid i fynegi pryder ynghylch rheoli disgwyliadau'r gymuned ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud mewn gwirionedd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. A ydych chi'n credu bod hyn yn bryder i'ch sefydliad chi?

Os ydych chi wedi ateb ydw, dywedwch os gwelwch yn dda sut y teimlwch y gellid ymdrin â'r pryder hwn neu beth y mae eich sefydliad wedi'i wneud i ymdrin ag ef:

- d) Gall disgwyliadau'r cyhoedd fod yn ehangach na'r hyn a ddarperir gan Safon Cymru. A oes unrhyw beth pellach y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud i wella o ran ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredinol?
- e) A yw Safon Cymru'n addas ar gyfer ei mabwysiadu gan eich sefydliad chi?
- f) A yw'r 7 ymrwymiad yn ffurfio dull effeithiol o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Os mai na yw eich ateb, pa elfennau sydd ar goll?

- g) A ydych chi'n teimlo bod y cydbwysedd rhwng gorfodaeth a chymorth a gynhwysir yn Safon Cymru yn iawn?

- h) Beth ddylai Llywodraeth y Cynulliad ei wneud i annog mabwysiadu a gweithredu Safon Cymru gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru?
- i) A ydych chi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth y Cynulliad gynhyrchu canllaw 'Safon Cymru' i'r cyhoedd yn gyffredinol?
- j) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch y Safon Rheoli Cymru arfaethedig gan gynnwys unrhyw oblygiadau ymarferol y credwch y gallai ei gael?

Cyfeiriadau a Dolennau

1. **Cymru'n Un**
http://news.bbc.co.uk/1/shared/bsp/hi/pdfs/27_06_07_oneyales.pdf
2. **Polisiau a Gweithdrefnau ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Tai Lleol a Chymdeithasau Tai**
<http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/publications/antisocial?lang=en>
3. **Respect Standard for Housing Management (Respect Standard)**
<http://www.communities.gov.uk/housing/housingmanagementcare/antisocialbehaviour/publicationsantisocial/respectstandard/>
<http://www.communities.gov.uk/publications/housing/landlordtoolkit>
4. **Delivering Community Safety : A guide to effective partnership working**
<http://www.crimereduction.homeoffice.gov.uk/partnerships/partnerships001.htm>
5. **Strategaeth Troseddwyd Ifanc Cymru Gyfan**
<http://www.yjb.gov.uk/en-gb/News/AllWalesYouthOffendingStrategy.htm?area=Corporate>
6. **'On Track' Phase Two National Evaluation – Reducing Risk and Increasing Resilience – How Did 'On Track Work? (29 Mai 2008)**
<http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/DCSF-RB035.pdf>
7. **Cynllun Gweithredu Rhianta**
<http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/consultation/past/participationplan?lang=en>
8. **Cynllun Gweithredu ar Diodi Plant 2006**
<http://new.wales.gov.uk/docreposit/40382/sjr/childpoverty/implementationphase1?lang=en>
9. **Cael Gwared ar Diodi Plant erbyn 2020: Mesur Llwyddiant**
<http://new.wales.gov.uk/about/departments/dsjr/publications/measuresuccess/?lang=en>
10. **Suitable, Sustained, Supported: A Strategy to Ensure Provision of Accommodation for Children and Young People who offend**
<http://www.yjb.gov.uk/publications/Scripts/prodView.asp?idproduct=307&eP=>
11. **Cod Rheoliadol Llywodraeth y Cynulliad**
<http://www.ecoliinquirywales.org.uk/topics/housingandcommunity/housing/publications/regulatorycodehas?lang=en>

ATODIAD A – Rhestr o sefydliadau/adrannau yr ymgynghorwyd â hwy

Asiantaethau Allanol

Prif Weithredwyr awdurdodau lleol
Adrannau tai awdurdodau lleol
Timau cefnogi pobl awdurdodau lleol
Cymdeithasau tai cofrestredig
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cartrefi Cymunedol Cymru
Tai Pawb
Cymorth Cymru
Shelter Cymru
Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru
Ffederasiwn Tenantiaid Cymru
Chartered Institute of Housing Cymru
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru
Cyfryngu Cymru
Grŵp Trosedd a Niwsans Landlordiaid Cymdeithasol
Heddluoedd yng Nghymru
Timau Troseddau Ieuencid yng Nghymru
Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru

Adrannau Llywodraeth y Cynulliad

Uned Diogelwch Cymunedol
Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Gwasanaethau Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cymru)